

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Mair Roberts (Llanefydd) ddiwedd yr wythnos hon. Treuliodd Anti Mair – fel ag yr oedd cymaint yn ei hadnabod – ei blynnyddoedd diwethaf yng nghartref Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur a diolchwn am y gofal arbennig a gafodd yno. Diolchwn am ei bywyd ac am gyfoethogi bywyd cymaint o bobl eraill. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Gwyn, Alun, Delyth a'u teuluoedd, hefyd ei chwaer, Elsie May Edwards (Llansannan), a gweddill y teulu. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Dymunwn yn dda i Geraint Roberts (Llansannan) a Catrin Mattison fydd yn priodi yng Nghapel Cilcain dydd Sadwrn nesaf.

Gwaith Llafar yr Ysgol Sul

Bu i Bwyllgor Ysgolion Sul Bro Aled benderfynu gosod gwaith dysgu ar gyfer pob oedran eto eleni! Yn ogystal ag adrodd y gwaith yn yr eglwys leol yn ystod un o'r pedwar Sul cyntaf ym mis Mehefin, bydd pob oed (ar wahân i'r oedran uwchradd) yn cyflwyno'r gwaith llafar yn ystod "*i-Grist*" sef y gwasanaeth ar fore Sul y Fro, Mehefin 30ain yn Llansannan. Bydd yr oedran uwchradd yn ei gyflwyno yn yr "*Oedfa o Fawl*" a gynhelir yn oedfa'r hwyr ar y Sul hwnnw. Dyma'r gwaith dysgu:

Blwyddyn 2 ac iau: "Caru'r Iesu" (Eryn 6, Detholiad 2012-13) – *canu neu adrodd*

Blwyddyn 3 – 6: "Dyma Feibil annwyl Iesu" (Eryn 3, Detholiad 2012-13)

Uwchradd: Eryn cyfoes (*un fydd yn cael ei chanu yn yr Oedfa o Fawl – heb ei dewis eto*)

Oedolion: Salm 100 (cyfieithiad William Morgan)

Mae croeso hefyd i bwy bynnag sy'n dymuno baratoi llun/cyflwyniad creadigol syml i gyd-fynd efo'r gwaith llafar. Er mwyn inni gael paratoi cyflwyniad PowerPoint ohonynt i'w dangos ar y wal yn ystod yr oedfa "*i-Grist*", gofynnir yn garedig i'r arolygwyr Ysgol Sul drefnu bod pob cyflwyniad (gydag enw a'r oed ar y cefn) yn cyrraedd Mair erbyn dydd Mercher, Mehefin 26ain, os gwelwch yn dda.

Bydd yr Ysgolion Sul yn cyflwyno tystysgrif i'r plant oed cynradd ac iau yn dilyn gwrandao arnynt yn adrodd/canu yn yr eglwys leol. I gael y tystysgrifau ac os ydych am nodi yn Llais Bro Aled y Sul y byddwch yn cyflwyno'r gwaith yn lleol, cysylltwch â Mair (870632). Hwyl ar y dysgu!

Ar Osod

Tŷ Capel Saron (ar gael 1af o Orffennaf) – cegin fwyta, ystafell fyw, 2 lofft, gwres canolog olew. Dim dyletswyddau gofalu. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Helen (01745) 550327.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Mai 2013

Darlleniad y Dydd

Barnwyr 2:6–10

(BCND tud.222 / BCN: tud.202)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Mae'r darlleniad heddiw yn un i'n sobri. Hanes sydd yma o'r hyn a ddigwyddodd i Joshua a oedd wedi dilyn Moses fel arweinydd ac a oedd wedi cael dod â'r genedl i mewn i wlad yr addewid. Roedd Duw wedi ei lwyddo trwy fuddugoliaethau mawr a bach. Ond mae'r Gair yn dweud fod y genhedlaeth wedyn yn codi "nad oedd yn adnabod yr Arglwydd na chwaith yn gwybod am yr hyn a wnaeth dros Israel." (2:10)

Meddyliwch am y gwahaniaeth rhwng y ddwy genhedlaeth! Un yn profi Duw ar waith ac yn ei adnabod, a'r llall mor ddieithr i'r cyfan – cenhedlaeth heb wybod am yr hyn y mae Duw wedi ei wneud trosti – heb wybod fod Crist wedi marw drosti na'i fod yn Waredwr iddi! Onid dyna faich trwm ein tristwch ni dros ein cenhedlaeth ninnau?

Ond wedyn, wedi meddwl, onid ar genhedlaeth debyg y syrthiodd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost? Cenhedlaeth a oedd heb adnabod Duw yng Nghrist. Mae'n rhaid i ni barhau i ryfeddu at yr hyn a ddigwyddodd dan allu'r Ysbryd, dod â'r rhai a oedd wedi croeshoelio Crist i gredu ynddo a chael eu bedyddio yn ei enw!

Wrth i ni ystyried ein cenhedlaeth ni a'r pellter sydd rhyngom yn ein hadnabyddiaeth o Dduw a'r hyn y mae wedi ei wneud trosom, cofiwn mai gwaith yr Ysbryd ym mhob man trwy hanes yw agor calonnau pobl a'u dwyn i adnabod mawredd Crist a'i waith 'trosom ni'.

Mae'r Ysbryd wrthi'n gwneud hyn ar raddfa eithriadol yng Nghwmbrian ar hyn o bryd. Cafodd 60 eu bedyddio yn enw Iesu Grist yno'r dydd o'r blaen! Ac yma ym Mro Aled daeth ag amryw o sawl cenhedlaeth a fu ymhell yn agos, trwy waed Crist, i adnabod Duw yn Dad (Effesiaid 2). Rhyfeddol yw gwaith Ysbryd Duw!

Clywsom am hyn gan Gwawr nos Sul o'i phrofiad personol. Diolch i Gwawr am arwain yr oedfa, am rannu ei phrofiad o ddod i adnabod Crist a'i ogoniant ac am ei gweddi hyfryd dros ei cenhedlaeth a'i chyfoedion, a thros Rhodri a Gwenno.

Llawenhawn yn yr Arglwydd ar drothwy eu bywyd priodasol ynghyd ag am yr undod rhwng y ddau, a'u teuluoedd, sydd mor ffyddlon yn eu cariad tuag at eu Harglwydd. Dyma dystiolaeth arall i ddaioni'r Gwaredwr – fod gennym gymaint o deuluoedd sy'n tystio i gariad Iesu ac am weld pawb yn ei gofleidio'n Waredwr. Diolchwn ac addolwn ein Duw a dymunwn fendith helaeth arnynt yn eu bywyd ynghyd. Edrychwn ymlaen hefyd at gael eu croesawu'n ôl i'w cartref newydd yn Heulfryn a bydded tangnefedd Duw iddynt ar eu haelwyd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • Bydd **Cwrs Rhianta** (*sydd wedi ei gynllunio gan Positive Parenting*) yn cychwyn yn y Granar, Llansannan am 7.30 dan arweiniad Sian Edwards ac Elinor Owen. Os nad ydych wedi rhoi eich enw ond bod gennych awyddo ymuno, cysylltwch â Mair (870632 / 07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com), os gwelwch yn dda.
- Mercher
lau • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
• **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd y Parch Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Rhag-
hysbysiad Ar yr zil o Fehefin, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i oedfa'r bore yn Llanfair i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 ac yna cynhelir Sasiwn y Plant yn y Groes am 2.00 gyda Ceri Rawson, Groes yn arwain y canu ac Eirlys Roberts, Trefnant yn rhoi anerchiad i'r plant. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Nyrsys Macmillan.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir gwasanaeth teuluol dan ofal yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.